**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 3 TACHWEDD 2025**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Siân Cwper, Cenwyn ap Tomos, Beti Williams, June Jones

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Glyn Griffiths

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 1 Medi 2025.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 1 Medi 2025, ond fod angen nodi nad oedd y Cynghorwyr Beti Williams na June Jones yn bresennol.

Yn ogystal, ym mharagraff 6.2 mae angen nodi fod Y Cynghorydd Nia Povey wedi siarad efo Cyngor Gwynedd am arafu traffig yn raddol o 60 i 20 m.y.a. ar y ffyrdd i mewn i Garreg o Dremadog ac o Tan Lan, yn ogystal â'r ffordd i mewn o Benrhyndeudraeth.

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Cenwyn ap Tomos

## 5. Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch gan Naomi Jones

Cafwyd diweddariad gan Naomi Jones, Cyfarwyddwr Rheoli Tir, Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r Parc wedi tynnu'r Plas oddi ar y farchnad, yn dilyn sylwadau cryf gan y gymuned. Bwriedir gwneud cais am grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol erbyn mis Chwefror 2026. Os bydd y cais yma yn llwyddiannus, yna'r bwriad fydd symud y Pencadlys o Benrhyndeudraeth i'r Plas. Bydd y Pencadlys ym Mhenrhyndeudraeth wedyn yn cael ei werthu.

Os na fydd y cais yn llwyddiannus, yna bydd y Plas yn cael ei werthu.

Y bwriad yw y bydd y Plas efo swyddfeydd a chyfleusterau ar gyfer gweinyddiaeth Y Parc, ond bydd yr elfen bresennol o ddefnydd ar gyfer

digwyddiadau, cyfarfodydd ac ati yn parhau.  Gobeithir hefyd cadw'r elfen llety sydd yn yr anecs.

Bydd yn rhaid i'r Plas gynnal ei hun yn ariannol, ac felly bydd ystyriaeth gref o ran defnyddio ynni adnewyddol er mwyn lleihau'r costau rhedeg.

Cafwyd grant gan Cadw er mwyn llunio cynllun cadwraeth ar gyfer y gerddi.

Mae cydweithio efo'r cymunedau lleol o ran datblygu a'r defnydd o'r Plas yn y dyfodol, ac mae'r Parc am sicrhau fod unrhyw un o'r cyhoedd a/neu sefydliadau lleol sydd efo diddordeb yn nyfodol Y Plas yn cymryd rhan ac yn cynnig syniadau

Gobeithir y bydd yna ddiwrnod agored arall i'r cyhoedd yn cael ei drefnu ddechrau 2026.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 6.1 Y Ganolfan

Mae Menter Y Ring wedi bod yn defnyddio'r Ganolfan ar gyfer amrywiol gyfarfodydd, ac yn talu £10 yr awr.

Bu'r Comisiwn Elusennol mewn cysylltiad unwaith eto yn holi am ddiweddariad o ran bwriadau'r cyngor o ran dyfodol Y Ganolfan.

Cytunwyd mai'r ffordd ymlaen fyddai cysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn trafod opsiynau gan gynnwys ildio'r les.

### 6.2 Goryrru Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno mewn egwyddor i osod arwydd fflachio cyflymder ar y ffordd i mewn i Garreg o Benrhyndeudraeth.  Bydd yn rhaid i Gyngor Gwynedd gymeradwyo'r union leoliad, a'r Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am gostau prynu, gosod a chynnal a chadw.  Bydd hynny tua £5,500.

Bu'r Cynghorydd June Jones mewn cysylltiad efo aelod o'r cyhoedd oedd wedi holi am lwybr cerdded o Tan Lan i Garreg, ond dydy hyn ddim yn bosibl. Fodd bynnag, fe wnaeth Y Cynghorydd June Jones holi Cyngor Gwynedd a fyddai'n bosibl gosod arwyddion fod pobl yn cerdded arni, ac mae'n disgwyl ateb.

### 6.3 Mynwent Tan Lan

Bu'r Cynghorydd Nia Povey mewn cysylltiad efo Beddfeini Madog.  Maen nhw yn rhy brysur efo gwaith ac awgrymwyd ein bod yn cysylltu efo Richard Thomas, Ffestiniog.

Wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater, y farn yw bod y cerrig beddi yn ddiogel fel ag y maent.

Felly cytunwyd i fonitro'r sefyllfa. 5 sydd dan sylw, a'r teulu ddim yn adnabyddus. Mae pob carreg arall sydd yn sefyll yn gadarn.

Cafwyd cais i osod cofeb fechan ar waelod un bedd, ac fe gytunwyd y byddai hynny'n iawn.

**6.4 13 Garreg Frech**

Cafodd yr aelod o'r cyhoedd oedd wedi danfon at Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd ymateb o'r diwedd. Roedd yr ymateb yn dweud na fyddai Cyngor Gwynedd yn defnyddio eu pwerau o dan y Gorchymyn Rheoli Anheddau Gwag, gan fod angen cydweithrediad y perchennog i fedru gweithredu Gorchymyn o'r fath.

Dywedwyd hefyd fod Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r eiddo nifer o weithiau ond nad oedd yr eiddo yn ei gyflwr presennol yn achosi niwsans statudol.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi agor ffeil ar gyflwr yr eiddo gan ein bod wedi danfon atynt yn mynegi pryder, ond maent wedi dweud yn dilyn asesiad ar effaith y safle, nad ydynt o'r farn ei bod hi'n briodol iddyn nhw gymryd camau gorfodaeth ffurfiol ac felly y byddant yn cau'r achos, ond yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Yn y cyfamser mae pryder y gall y goeden ywen yn 13 Garreg Frech gwympo. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd ac Adra yn gofyn iddynt wirio'r sefyllfa.

**6.5 Cysgodfan Fysiau Llanfrothen**

Derbyniwyd addewid o £540 o gronfa gan Barc Cenedlaethol Eryri tuag at y gysgodfan.

Felly bydd y gysgodfan wedi ei hariannu yn llwyr gan grantiau a chyfraniad ymddiriedolaeth Brondanw.

Mae'r gwaith o adeiladu'r gysgodfan wedi dechrau.

**6.6 Llwybr Llanfrothen i Benrhyndeudraeth**

Does dim diweddariad ar y mater yma.

Mae Cyngor Tref Penrhyn wedi cael copi o adroddiad yr ecolegydd.

**6.7 Ynni Cymunedol**

Mynychodd y Clerc sesiwn gan Energy Local oedd o fudd o ran dysgu mwy am sefydlu prosiect ynni cymunedol yn y gymuned.

Hefyd fe dderbyniwyd gwybodaeth yr oedd Energy Local wedi ei baratoi ar gyfer Ymddiriedolaeth Brondanw, hwnnw'n dangos fod yr is-orsaf leol a fyddai'n darparu unrhyw drydan lleol yn cwmpasu ardal eang.

Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod Ionawr.

**6.8 Windows 10**

Mae cyfrifiadur y Clerc yn medru cael ei ddiweddaru i Windows 11, gan fod cymorth ar gyfer Windows 10 yn dod i ben.

**7. Materion Ariannol**

**7.1** Cyflog Clerc Medi 2025 £559.04

**7.2** Cyflog Clerc Hydref 2025 £559.04

**7.3** Yu Energy 8 Medi 2025 - £19.06

Yu Energy 8 Hydref 2025- £18.95

**7.4** Ffinials Cysgodfan Fws Siân Cwper - £25.30

**7.5** Anfoneb Dunn & Ellis, 174074, 20 Hydref 2025, cyflogres - £73.50

**7.6** Ad-dalu'r Clerc Defibstore, Padiau, Anfoneb 56806 - £150.00

**7.7** Ad-dalu'r Clerc Defibstore, Padiau, Anfoneb 56942 - £150.00

**7.8** Anfoneb Arwyn Williams 17/10/2025, tacluso a chwynnu tu allan i'r Ganolfan - £75.00

**7.9** Derbyn £1,450.00 Pritchard & Griffiths, 30 Medi 2025, Claddedigaeth Mynwent Tan Lan -

**7.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 27 Awst 2025 - £1.95

**7.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 28 Awst 2025 - £4.87

**7.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 1 Medi 2025 - £10.72

**7.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Medi 2025 - £24.36

**7.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Medi 2025 - £1.95

**7.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 12 Medi 2025 - £2.92

**7.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 15 Medi 2025 - £1.95

**7.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 22 Medi 2025 - £9.26

**7.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Medi 2025 - £4.87

**7.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Medi 2025 - £10.72

**7.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 26 Medi 2025 - £9.75

**7.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 29 Medi 2025 - £9.74

**7.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 6 Hydref 2025 - £11.69

**7.23** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Hydref 2025 - £4.87

**7.24** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Hydref 2025 - £24.36

**7.25** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Hydref - £26.30

**7.26** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Hydref - £9.75

**7.27** Balans yn y prif gyfrif 28 Hydref 2025 £11,423.19

**7.28** Balans yn y cyfrif cadw 28 Hydref 2025 £38,076.03

**7.29** Monitro'r Gyllideb – cafwyd trafodaeth ar balansau'r cyfrif banc a'r gyllideb

**8. Gohebiaeth**

Holiadur Adborth Cyngor Gwynedd ar Ymateb Cyngor Gwynedd i ymholiadau - gofynnwyd i'r Clerc gwblhau hwn ar ran y Cyngor Cymuned.

**9. Cynllunio**

Dim

**10. Materion Eraill**

**10.1 Llwybrau'r Gymuned**

Cafwyd cwynion gan aelod o'r gymuned am gyflwr y llwybr o ganol pentref Garreg, sef llwybr 22.

Ymatebodd Cyngor Gwynedd gam ddweud y byddant yn gofyn i gontractwr edrych ar sefyllfa'r dŵr wyneb, ond gall y byddai hyn yn anodd ei ddatrys gan fod craig galed yno.

O ran coed yn tyfu ar draws y llwybr, yna barn Cyngor Gwynedd oedd eu bod yn tyfu'n ddigon uchel fel nad oeddynt yn rhwystro cerddwyr, ond perchennog y tir sydd yn gyfrifol am eu cadw dan reolaeth.

**10.2 Diffribliwyr**

Cafodd y diffribliwr yn Siop a Chaffi Llanfrothen ei ddefnyddio. Prynwyd padiau newydd ar gyfer y rhai a ddefnyddiwyd a set o badiau sbâr i'w cadw yn y Siop a Chaffi.

Cytunwyd y byddai trefnu cwrs ar gyfer defnyddio’r diffibrilwyr i aelodau’r gymuned yn beth buddiol.

Gofynnwyd i’r Clerc drefnu hynny.

**10.3 Cyhoeddi Adroddiad Adran 6 – Bioamrywiaeth**

Mae angen i bob cyngor cymuned yng Nghymru baratoi adroddiad erbyn Ionawr 2026 yn dangos pa gamau y maent wedi eu cymryd i ddiogelu bioamrywiaeth yn eu cymuned

Cytunwyd i drafod adroddiad drafft yng nghyfarfod mis Ionawr.

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Ionawr 2026 am 7 yr hwyr** |
|---|